RPW
Ar-Lein
Online

Taliadau Gwledig Cymru
Rural Payments Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Canllaw i Gwsmeriaid ar sut i fynd ar Borth y Llywodraeth



**Cynnwys:** **Tudalen:**

**Gweld cyfrifon Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth** **3**

- Cyflwyniad 3
- Sut i fynd ar Borth y Llywodraeth 3

**Cofrestru am ID Defnyddiwr a Chyfrinair Porth y Llywodraeth** **4**

**Sut i Fewngofnodi i Borth y Llywodraeth os ydych eisoes yn ddefnydiwr** **9**

**Manylion wedi'u colli** **13**

- Anghofio'r cyfrinair 13
- Anghofio'r ID Defnyddiwr, cyfrinair a'r gair adfer 15

**Agor Cyfrif neu Gofrestru Cwsmer** **16**

- Agor eich Cyfrif 16
- Cofrestru Cwsmer 16

**Rheoli Cyfrif Porth y Llywodraeth** **17**

- Gweinyddwr 17
- Defnyddiwr Safonol 17
- Aelodau'r Tîm 17

**Rheoli Grŵp** **19**

- Ychwanegu aelod o'r tîm 19

**Rheoli'r Proffil** **22**

**Mwy o Arweiniad a Help** **25**

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru
©Hawlfraint y Goron 2018

# Gweld cyfrifon RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth

## Cyflwyniad

Trwy ddefnyddio Taliadau Gwledig Cymru (RPW Ar-lein), mae cwsmeriaid a'u hasiantwyr/cynrychiolwyr undebau ffermwyr yn cael rheoli'u cyfrifon busnes ar y Rhyngrwyd.

Mae cyfrif RPW Ar-lein yn golygu'ch bod yn gallu:

- llenwi ceisiadau a datgan diddordeb
- cael yr wybodaeth ddiweddaraf trwy neges destun neu e-bost
- gweld ble ydych chi arni gyda'ch holl hawliadau
- holi RPW ac ateb eu cwestiynau nhw, gan gynnwys lanlwytho dogfennau
- diweddaru manylion eich busnes
- rhoi caniatâd i gynrychiolydd eich undeb ffermwyr a'ch Asiant wneud pethau ar eich rhan, os dyna'ch dymuniad

- ychwanegu a rheoli eich CPH (rhifau daliad).

Cyn cael defnyddio RPW Ar-lein, rhaid cofrestru gyda Phorth y Llywodraeth neu fewngofnodi iddo. Mae'r rhan hon o'r llyfryn yn esbonio wrthych sut i wneud. Trwy ddilyn y canllaw hwn gam wrth gam, dylech allu cofrestru'n llwyddiannus, dilysu'ch manylion os ydych eisoes yn defnyddio Porth y Llywodraeth a chael gwybod sut i reoli cyfrif Porth y Llywodraeth ar ôl ichi fewngofnodi.

## Sut i fynd ar Borth y Llywodraeth

Mae dwy ffordd o fynd ar Borth y Llywodraeth ar RPW Ar-lein:

- Mewngofnodi trwy wefan Llywodraeth Cymru, yn www.llyw.cymru/rpwarlein




- Mewngofnodi trwy ddolen wedi'i chadw (ar ôl mewngofnodi i dudalen RPW Ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru, rhowch nod tudalen arni neu ychwanegwch hi at eich ffefrynnau, gan ddibynnu pa borwr rhyngrwyd rydych yn ei ddefnyddio)

## Cofrestru am ID Defnyddiwr a Chyfrinair Porth y Llywodraeth

I gofrestru am ID Defnyddiwr a chyfrinair Porth y Llywodraeth, dilynwch y camau syml canlynol i greu cyfrif:

1. Cliciwch ar "Creu Dynodydd Defnyddiwr (ID)".




2. Yna gofynnir ichi beth yw’ch cyfeiriad e-bost. Mae'n bwysig defnyddio cyfeiriad e-bost dilys rydych yn cael ei ddefnyddio, gan y caiff cod cadarnhau ei anfon ato i gwblhau'r broses gofrestru. Caiff ei ddefnyddio hefyd os byddwch yn colli'ch manylion mewngofnodi.



3. Caiff cod 8 digid Porth y Llywodraeth ei greu a'i e-bostio atoch chi. Bydd gofyn ichi nodi'r cod ar y sgrin ganlynol. Os nad ydych wedi cael y cod, cliciwch ar "Nid wyf wedi cael yr e-bost" a chaiff cod newydd ei e-bostio atoch. Cofiwch, ni fydd yr hen god yn gweithio os caiff cod newydd ei greu ichi.





4. Cyn belled â'ch bod wedi teipio'r cod yn gywir, caiff eich cyfeiriad e-bost ei gadarnhau.




5. Yna gofynnir ichi am eich enw llawn.




6. Y cam nesaf yw creu cyfrinair ar gyfer cyfrif Porth y Llywodraeth. Rhaid i'r cyfrinair fod rhwng 8 a 12 nod o hyd, bydd ganddo o leiaf un rhif (0-9), o leiaf un llythyren ond dim nodau arbennig.




7. Yna, bydd angen ichi greu gair adfer. Gwnewch nodyn o'r gair rydych wedi'i ddewis a'i roi i gadw mewn lle sâff ichi allu troi ato yn y dyfodol.




8. Rhaid i'r gair fod rhwng 6 a 12 nod o hyd, heb fylchau, nodau arbennig na rhifau.



9. Rydych nawr wedi cofrestru ar gyfer Porth y Llywodraeth. Bydd y sgrin nesaf yn cadarnhau'ch ID Defnyddiwr a chaiff ei anfon i'ch cyfeiriad e-bost. Bydd angen yr ID a'r cyfrinair arnoch bob tro y byddwch am fynd i'ch cyfrif RPW Ar-lein.




Cewch eich anfon nawr i'r dudalen Agor Cyfrif neu Gofrestru Cwsmer.

## Sut i Fewngofnodi i Borth y Llywodraeth os ydych eisoes yn ddefnyddiwr


Os ydych eisoes yn defnyddio Porth y Llywodraeth, ni fydd angen ailgofrestru i gael cyfrif; gallwch ddefnyddio'ch ID Defnyddiwr a'ch cyfrinair i fynd i RPW Ar-lein.
Ond y tro cyntaf y byddwch yn mewngofnodi i Borth y Llywodraeth, bydd gofyn ichi gadarnhau bod eich enw a'ch e-bost yn gywir. Bydd gofyn ichi greu gair adfer hefyd. Bydd angen hwnnw arnoch chi rhag ofn y collwch chi'ch manylion mewngofnodi.

Dilynwch y camau syml hyn i gadarnhau'ch manylion:

1. Os ydych chi'n gwybod eich ID Defnyddiwr a'ch cyfrinair, nodwch nhw isod a mynd yn syth i gam 3.





2. Os ydych wedi anghofio'ch manylion mewngofnodi, bydd y dolenni isod yn eich helpu i'w cael yn ôl. Darllenwch yr adran Manylion wedi'u Colli yn y canllaw hwn am fwy o wybodaeth am hyn.




3. Pan fyddwch wedi mewngofnodi i Borth y Llywodraeth, byddwn yn gofyn ichi gadarnhau bod eich manylion yn gywir. Gofalwch fod y cyfeiriad e-bost yn gywir a'ch bod yn cael ei ddefnyddio gan y byddwn yn anfon eich manylion mewngofnodi atoch trwyddo pe baech yn eu colli. Os ydy'ch manylion yn gywir, cliciwch "Iawn" ac ewch yn syth i gam 7. Os nad ydyn nhw'n gywir, cliciwch "Na".




4. Dilynwch y camau hyn i gywiro manylion anghywir. Defnyddiwch y sgrin gyntaf i gywiro'ch enw.



5. Ar y sgrin nesaf, cywirwch gyfeiriad eich e-bost. Gofalwch eich bod yn defnyddio cyfeiriad e-bost dilys rydych yn cael ei ddefnyddio, gan y caiff cod cadarnhau ei anfon atoch ichi gwblhau'r broses ddilysu. Caiff ei ddefnyddio hefyd os byddwch yn colli'ch manylion mewngofnodi.




6. Ar ôl ichi gadarnhau'ch cyfeiriad e-bost, caiff cod 8 digid Porth y Llywodraeth ei greu a'i e-bostio atoch. Bydd gofyn ichi nodi'r cod ar y sgrin ganlynol. Os nad ydych wedi cael y cod, cliciwch ar "Nid wyf wedi cael yr e-bost" a chaiff cod newydd ei e-bostio atoch. Cofiwch, ni fydd yr hen god yn gweithio os caiff cod newydd ei greu ichi.



7. Y cam nesaf yw creu gair adfer. Gwnewch nodyn o'r gair rydych wedi'i ddewis a'i roi i gadw mewn lle sâff ichi allu troi ato yn y dyfodol. Os byddwch yn anghofio'ch cyfrinair, bydd angen eich gair adfer arnoch ichi allu ei ailosod.




8. Rhaid i'r gair adfer fod rhwng 6 a 12 nod o hyd, heb fylchau, nodau arbennig na rhifau.





Dyna ddiwedd y broses ddilysu. Dim ond unwaith y bydd angen ichi ddilysu'ch manylion. Y tro nesaf y byddwch yn mewngofnodi, byddwch yn mynd yn syth i'ch tudalen hafan ar RPW Ar-lein. Cewch newid eich manylion unrhyw bryd. Darllenwch yr adran [Rheoli Porth y Llywodraeth] yn y canllaw hwn i gael gwybod sut mae gwneud.

Os nad ydych wedi bod ar RPW Ar-lein o'r blaen, eich tudalen gyntaf fydd y dudalen agor cyfrif neu gofrestru fel cwsmer. Darllenwch [Agor eich Cyfrif RPW Ar-lein] neu [Ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid]

## Manylion wedi'u Colli - ID Defnyddiwr a chyfrinair Porth y Llywodraeth

Os ydych wedi anghofio ID Defnyddiwr neu gyfrinair Porth y Llywodraeth, mae yna ffyrdd ichi eu cael yn ôl.




## Anghofio cyfrinair


Os ydych wedi anghofio'ch cyfrinair, cliciwch ar y ddolen "Rwyf wedi anghofio'm cyfrinair". Er mwyn ichi allu ei ailosod, bydd angen eich ID Defnyddiwr, cyfeiriad e-bost a'ch gair adfer arnoch. Nodwch eich ID Defnyddiwr a'ch cyfeiriad e-bost ar y sgrin gyntaf. Nodwch yr un cyfeiriad e-bost ag y defnyddioch chi pan greoch chi eich ID Defnyddiwr.



Cliciwch "Yn eich blaen" a gofynnir ichi nodi 3 llythyren o'ch gair adfer.




Byddwch wedyn yn gallu creu cyfrinair newydd. Rhaid i'r cyfrinair fod rhwng 8 a 12 nod o hyd, rhaid bod ganddo o leiaf un rhif (0-9), o leiaf un llythyren ond dim nodau arbennig.



Caiff eich cyfrinair newydd ei safio a chewch eich anfon i'r dudalen fewngofnodi er mwyn ichi allu nodi'ch cyfrinair newydd a'ch ID Defnyddiwr. Caiff e-bost ei anfon atoch chi i gadarnhau'ch bod wedi newid eich cyfrinair.




## Anghofio'r ID Defnyddiwr, cyfrinair a'r gair adfer

Ond os ydych wedi anghofio'r ID Defnyddiwr, cyfrinair a'r gair adfer, mae gennych ddau ddewis:

- Gallwch ofyn i Weinyddwr eich tynnu chi o'r tîm a'ch ychwanegu eto fel bod ID Defnyddiwr a chyfrinair dros dro newydd yn cael eu creu. Darllenwch yr adran Rheoli Grŵp yn y canllaw ynghylch sut i ychwanegu a thynnu aelodau o'r tîm.

- Os mai chi yw'r unig Weinyddwr, bydd yn rhaid ichi 'ymddiswyddo' ac yna 'ailymaelodi' ar gyfer RPW Ar-lein er mwyn ichi allu creu ID Defnyddiwr a chyfrinair Porth y Llywodraeth newydd. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid - mae'r manylion cysylltu yn yr adran Mwy o Arweiniad a Help yn y canllaw hwn.

## Agor Cyfrif neu Gofrestru Cwsmer

### Agor eich cyfrif - Cwsmeriaid sydd eisoes wedi cael CRN

Os ydych eisoes yn gwsmer RPW ond nad ydych wedi bod ar RPW Ar-lein o'r blaen, mae agor cyfrif yn beth hawdd. Bydd angen eich Cyfeirnod Cwsmer (CRN), cod post eich cyfeiriad gohebu a chod Defnyddio arnoch. Bydd yr holl bethau hyn wedi'u hanfon atoch ar eich llythyr Cod Defnyddio pan wnaethoch chi gofrestru am CRN. Os nad ydych yn gallu cael hyd i'r llythyr a bod angen cod defnyddio newydd arnoch chi, cysylltwch â'ch Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid; darllenwch Mwy o Arweiniad a Help ar ddiwedd y canllaw hwn.

### Cofrestru Cwsmeriaid - Cwsmeriaid sy'n cofrestru gydag RPW am y tro cyntaf

Os hoffech gofrestru fel cwsmer RPW, llenwch y Ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid ar-lein a chael CRN a mynd yn syth ar RPW Ar-lein.




Fe welwch fwy o fanylion sut i agor cyfrif a sut i gofrestru fel cwsmer ar-lein yn www.llyw.cymru/rpwarlein

## Rheoli cyfrif Porth y Llywodraeth

Os ydych eisoes yn defnyddio Porth y Llywodraeth, byddwch yn cadw'r rôl oedd gennych eisoes; naill ai Weinyddwr neu Gynorthwy-ydd. Defnyddiwr Safonol yw'r enw ar Gynorthwy-ydd erbyn hyn.

## Gweinyddwr

Os ydych wedi creu cyfrif newydd ar Borth y Llywodraeth, byddwch yn cael eich gwneud yn Weinyddwr yn awtomatig. Mae Gweinyddwr yn cael ychwanegu, tynnu a newid holl aelodau'r tîm sy'n gysylltiedig â chyfrif Porth y Llywodraeth. Chi fydd yn penderfynu pwy sy'n cael bod yn Weinyddwr neu'n Ddefnyddiwr Safonol.

## Defnyddiwr Safonol

Ni fydd Defnyddiwr Safonol yn cael ychwanegu, tynnu na newid aelodau'r tîm.


## Aelodau'r Tîm

Aelodau'r tîm yw'r defnyddwyr sy'n cael gweld y cyfrif RPW Ar-lein. Gall tîm fod â nifer o weinyddwyr a defnyddwyr safonol. Bydd pob aelod yn cael gweld y cyfrif RPW Ar-lein gan ddefnyddio'u ID Defnyddiwr a'u cyfrinair eu hunain.

Trwy ychwanegu aelod at y tîm, rydych yn rhoi'r hawl iddo weithredu ar ran y busnes ar RPW Ar-lein.

Gall aelodau tîm Porth y Llywodraeth fod yn wahanol i'r unigolion rydych wedi'u rhestru ar eich ffurflen Manylion y Cwsmer a'r ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid. Gallwch ychwanegu Gweinyddwr neu Ddefnyddiwr Safonol, nad yw'n rhan o'r busnes, at eich cyfrif Porth y Llywodraeth. Mae hynny'n golygu na fydd RPW yn cysylltu ag e/hi i drafod prosesau arferol y busnes ond gan eich bod wedi'i ychwanegu at eich cyfrif Porth Llywodraeth ar-lein, rydych wedi rhoi'r hawl iddo/iddi weithredu ar ran y busnes ac felly bydd yn cael cyflwyno ceisiadau, newid manylion y busnes ac ati ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

Mae'n hawdd ichi weld beth yw'ch rôl; bydd gan Weinyddwr ddolen at Rheoli Grŵp a Rheoli Proffil ond dim ond dolen at Rheoli Proffil fydd gan ddefnyddiwr Safonol. Byddwch yn gallu clicio ar y dolenni hyn cyn gynted ag y byddwch wedi mewngofnodi ar Borth y Llywodraeth, hyd yn oed os na fyddwch wedi agor neu gofrestru ar gyfer cyfrif RPW Ar-lein.



## Rheoli Grŵp

Mae Rheoli Grŵp yn caniatáu ichi ychwanegu, tynnu, rheoli a chwilio am aelodau tîm Porth y Llywodraeth. Trwy glicio ar y ddolen "Rheoli Grŵp", fe welwch y sgrin ganlynol:




## Ychwanegwch aelodau o'r tîm

1. I ychwanegu aelod o'r Tîm, cliciwch ar "Ychwanegu aelod". Byddwch yn gallu cofnodi'u gwybodaeth ar y sgrin hon. Gofalwch fod cyfeiriad yr e-bost yn gywir a bod aelod newydd y tîm â'r hawl i'w ddefnyddio gan y bydd yn cael ei ID Defnyddiwr trwy'r e-bost hwnnw. Bydd angen ichi hefyd gadarnhau a ddylai fod yn Weinyddwr neu'n ddefnyddiwr Safonol.




2. Ar ôl cofnodi'r wybodaeth, gofynnir ichi gadarnhau'ch bod am ychwanegu aelod newydd at y tîm. Os ydych am dynnu aelod, newidiwch ei fanylion neu ychwanegwch aelod arall o'r tîm cyn cadarnhau. Gallwch wneud hynny trwy glicio ar y dolenni isod.




3. Pan fyddwch wedi cadarnhau aelod/au newydd y tîm, bydd sgrin gadarnhau'n ymddangos sy'n cadarnhau nifer yr aelodau rydych wedi'u hychwanegu at y tîm a beth fydd yn digwydd nesaf.



Bydd aelod newydd y tîm wedyn yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth gan ddefnyddio'i ID Defnyddiwr a'r cyfrinair dros dro. Pan fydd yn mewngofnodi am y tro cyntaf, gofynnir iddo greu cyfrinair newydd.




Gall pob Gweinyddwr ychwanegu, tynnu neu reoli aelodau'r grŵp pryd bynnag y bo angen trwy Rheoli Grŵp. Cofiwch, rhaid bod gan bob cyfrif Porth y Llywodraeth o leiaf un Gweinyddwr.

## Rheoli'r Proffil


Mae'r Gweinyddwr a'r Defnyddiwr Safonol yn cael Rheoli'r Proffil. Byddwch yn cael rheoli'ch enw, cyfeiriad e-bost, cyfrinair a'ch gair adfer trwyddo. Cliciwch ar "Newid" i ddiweddaru'r wybodaeth.




Os byddwch yn clicio i newid eich enw llawn, fe welwch y sgrin isod er mwyn ichi allu ei newid:



Os byddwch yn clicio i newid cyfeiriad eich e-bost, fe welwch y sgrin isod er mwyn ichi allu ei newid. Mae'n bwysig defnyddio cyfeiriad e-bost dilys rydych yn cael ei ddefnyddio, gan y caiff cod cadarnhau ei anfon ato ichi allu newid cyfeiriad eich e-bost. Caiff ei ddefnyddio hefyd os byddwch yn colli'ch manylion mewngofnodi.




Ar ôl ichi gadarnhau'ch cyfeiriad e-bost, caiff cod 8 digid Porth y Llywodraeth ei greu a'i e-bostio atoch. Bydd gofyn ichi nodi'r cod ar y sgrin ganlynol. Os nad ydych wedi cael y cod, cliciwch ar "Nid wyf wedi cael yr e-bost" a chaiff cod newydd ei e-bostio atoch. Cofiwch, ni fydd yr hen god yn gweithio os caiff cod newydd ei greu ichi.




Bydd cyfeiriad eich e-bost yn newid pan fyddwch wedi cadarnhau'r cod.

Os byddwch yn clicio i newid eich cyfrinair, fe welwch y sgrin isod er mwyn ichi allu ei newid:




Os byddwch yn clicio i newid neu ychwanegu gair adfer, fe welwch y sgrin isod. Os nad ydych wedi gosod eich gair adfer o'r blaen, rydyn ni'n awgrymu'ch bod yn gwneud gan y bydd ei angen arnoch pe baech yn anghofio'ch cyfrinair.




Cewch reoli'ch proffil pan fydd angen trwy glicio ar y ddolen **"Rheoli'r Proffil".** Ni chewch newid i fod yn Weinyddwr os ydych yn ddefnyddiwr Safonol. Dim ond y Gweinyddwr sy'n cael newid rolau aelodau'r tîm.

## Mwy o Arweiniad a Help

Mae canllaw manylach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/rpwonline
I siarad â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, ffoniwch 0300 062 5004. Ei horiau agor yw:

**Llun - Iau 8.30am tan 5pm**
**Gwener 8.30am tan 4.30pm.**

Gallwch anfon neges atyn nhw hefyd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

Gall ein Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid siarad â chi hefyd am weithdai a'r cymorth un i un sydd ar gael yn ystod cyfnod y SAF ac ar adegau pwysig eraill.

Am ragor o wybodaeth am gynlluniau eraill sy'n cael eu rhedeg gan Daliadau Gwledig Cymru, ewch i: www.llyw.cymru/ffermio

**Defnyddio a hyfforddiant mewn cyfrifiaduron**
Mae'r wefan www.computercourses.wales yn rhestru'r cyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yn ogystal â'r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael ledled Cymru. Gallwch hefyd ffonio 0845 474 8282. Mae yna nifer fach o gyfrifiaduron ar gael hefyd yn rhai o swyddfeydd Llywodraeth Cymru.

**Band eang**
Mae band eang cyflym wrthi'n cael ei ddarparu ledled Cymru neu gallwch wneud cais am grant i gysylltu â band eang cyflym trwy ffyrdd eraill. Ewch i www.llyw.cymru/bandeang am ragor o wybodaeth neu ffoniwch 0300 025 8887.